# CYFLWYNIAD

CYFLWYNIR y gyfrol hon yn ôl addewid a wnaed pan gyhoeddwyd *Y Bywgraffiadur Cymreig* yn 1953. Chwe blynedd wedi hynny cyhoeddwyd *The Dictionary of Welsh Biography*, a byth er 1959 y mae'r gwaith wedi mynd ymlaen o baratoi'r gyfrol nesaf.

Bu Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn ffodus o gael llaw arweiniol y diweddar Athro Robert Thomas Jenkins, C.B.E., M.A., D.LITT., LL.D., F.S.A., fel Golygydd ar hyd y ffordd a chynhorthwy Miss Margaret Beatrice Davies, M.B.E., fel Is-Olygydd. Fe benodwyd y Cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol, Mr. Evan David Jones, C.B.E., B.A., F.S.A., yn Gyd-Olygydd â Dr. Jenkins i baratoi'r gyfrol hon ac i fod yn Olygydd cyfrolau pellach.

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod ei dyled iddynt ac i'r ysgrifwyr (llawer ohonynt yn rhoi eu cyfraniadau heb dâl) ac i lu o garedigion eraill.

BEN G. JONES,
*Ysgrifennydd.*

*Mawrth 1970.*